TÎM TROSEDDAU IEUENCTID / AROLYGIAD

Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Y Swyddfa Safonau Mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Meini prawf ar gyfer arolygu Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru

Cyfnod Pedwar

Ebrill 2007 Fersiwn 1

Cyflwyniad

Mae Meini Prawf Timau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys yr holl agweddau gwaith y mae'n rhaid ymdrin â nhw yn ystod yr arolygiad (Meini Prawf Cyffredinol) ac yn nodi'r meysydd tystiolaeth penodol y dylid eu darparu naill ai ymlaen llaw neu yn ystod y gwaith maes (Meini Prawf Penodol). Mae'r croesgyfeiriadau mewn cromfachau yn y testun yn cynnwys cysylltiadau at rannau perthnasol y safonau cenedlaethol cyfiawnder ieuenctid. Darperir Geirfa ar gyfer yr holl fyrfoddau a ddefnyddir. I'r rheiny sy'n asesu yn erbyn Meini Prawf Timau Troseddau Ieuenctid, mae Pecyn Offer ategol ar gael sy'n cynnig mwy o eglurhad.

CYNNWYS

Adran 1.	**GWAITH YN Y LLYSOEDD**	4
Adran 2.	**GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED**	6
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu	6
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	8
	Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	11
	Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	12
Adran 3.	**GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN DEDFRYDAU GWARCHODOL**	14
Adran 4.	**DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL**	18
Adran 5.	**RHEOLI AC ARWAIN**	20
	Arwain a chynllunio	20
	Partneriaeth ac adnoddau	20
	Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff	22

GEIRFA

Asset	Erfyn asesu'r BCI i rai a gafwyd yn euog o droseddau	PPO	Troseddwyr toreithiog a throseddwyr eraill sy'n flaenoriaeth
SCT	Swyddfa Cofnodion Troseddol	PN	Perygl Niwed
AHCh	Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth	CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd	BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
SG	Safon genedlaethol	TTI	Tîm Troseddau Ieuenctid

Onset	Erfyn asesu a ddatblygwyd gan y BCI ar gyfer y rheiny sydd mewn perygl o droseddu

1. GWAITH YN Y LLYSOEDD

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
1.1 Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau trwy ddarparu gwasanaethau cyn-dedfrydu priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chefnogi mechnïaeth.	1.1a Mae yna drefniadau ar waith, y mae'r TTI wedi cytuno â nhw, i nodi a rhybuddio'r TTI ynghylch yr holl blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael remand diogel neu warchodol. 1.1b Mae ystod o wasanaethau cefnogi/goruchwylio yn cael eu cynnig (gan gynnwys remandiau anniogel), sy'n gymesur â thebygolrwydd cael remand diogel neu warchodol, i ymdrin â gwrthwynebiadau i fechnïaeth. 1.1c Bod cydweithio cadarnhaol, rhagweithiol ac amserol rhwng staff y TTI a staff gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc i ymdrin â materoin diogelu fel y bo'n briodol. [SG 2.1] 1.1d Caiff pob plentyn neu berson ifanc ei remandio i ddalfa ddiogel neu warchodol a chânt eu cyfweld, eu hasesu ar gyfer bregusrwydd a chaiff y wybodaeth ei throsglwyddo i'r sefydliad o fewn amserlen y safon genedlaethol. 1.1e Mae gweithiwr y TTI yn mynychu ac yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd adolygu remand, gyda phwyslais penodol ar faterion diogelu. 1.1f Darperir gwasanaethau dilynol mewn da bryd i blant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio'n ddiogel i sicrhau bod mwy o geisiadau mechnïaeth yn cael eu gwneud lle bo'n briodol, a bod pecynnau cefnogi cymesurol i fynd gyda nhw. 1.1g Mae'r TTI yn dangos gostyngiad yn nifer y remandiau diogel a gwarchodol o flwyddyn i flwyddyn.
1.2 Cynorthwyir y llysoedd wrth wneud penderfyniadau deallus, amserol ac effeithiol trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd da a gwybodaeth briodol gan y TTIau.	1.2a Mae'r TTI yn darparu staff hyfforddedig a gwybodus sy'n cynnig gwasanaethau effeithiol i lysoedd yn ei ardal ddaearyddol, gan gynnwys cyflenwi staff ar ddydd Sadwrn/gŵyl banc ac mewn Llys(oedd) y Goron lleol. 1.2b Mae'r TTI yn cyfathrebu'n effeithiol â dedfrydwyr (ynadon, Barnwyr Llysoedd Sirol a Llysoedd y Goron) a defnyddwyr llys ynglŷn â gwaith y TTI i ysbrydoli hyder yn y ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid leol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol a phriodol i blant a phobl ifanc yn y llys. 1.2c Mae'r TTI yn mynd ati i geisio adborth gan ddedfrydwyr ynghlych gwaith cyn-dedfrydu ac ôl-dedfrydu, ac mae'n defnyddio'r adborth hwn a'i

	werthusiad ei hun o benderfyniadau remand a dedfrydu i wella arfer yn y dyfodol, gyda ffocws penodol ar amrywiaeth. 1.2d Cynhyrchir a dosberthir adroddiadau i'r llys yn unol â'r safon genedlaethol berthnasol [SG 7], maent o ansawdd da ac maent yn cynnwys cynigion sy'n briodol ac yn gymesur â difrifoldeb y drosedd.

2. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SYDD MEWN PERYGL O DROSEDDU

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
2.1 Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran) yn cynnal gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.	2.1a Cynhelir asesiad Onset yn llawn ar gychwyn pob ymyriad a'i adolygu yn ôl y gofyn. [SG 1] 2.1b Mae asesiadau yn tynnu ar ystod o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau ac asesiadau blaenorol a phresennol, a'r hunanasesiad lle bo modd. 2.1c Caiff materion amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethol/anfanteisiol posibl ac unrhyw anghenion unigol eraill eu hasesu'n weithredol ar gyfnod cynnar. Os caiff rhai eu nodi, rhoddir cynlluniau ar waith i leihau eu heffaith. 2.1d Rhoddir sylw i'r dulliau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol gyda phob plentyn neu berson ifanc. 2.1e Caiff PN i eraill ei asesu'n gywir ym mhob achos a nodir sy'n achosi perygl posibl, ac fe'i cyfathrebir i staff sy'n ymwneud â'r achos a, lle bo'n briodol, i unigolion eraill. 2.1f Cynhelir ymweliad cartref amserol a phwrpasol a'i ailadrodd yn ôl y gofyn. 2.1g Mae cynllun ymyrryd cychwynol amserol ac adolygiadau dilynol yn tynnu ar Onset, asesiadau/cynlluniau asiantaethau eraill ac asesiadau/cynlluniau blaenorol gan y TTI. Dylai cynlluniau gynnwys prosesau adfer dioddefwyr a chael amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 2.1h Trefnir ymyriadau'n briodol yn unol â'r PN, y tebygolrwydd o droseddu ac unrhyw faterion diogelu. 2.1i Nodir ymyriadau i leihau/cynnwys PN, i ymdrin â'r tebygolrwydd o droseddu ac ymwybyddiaeth y dioddefwr, i hyrwyddo diogelu ac ailintegreiddio cymunedol, ac maent yn gyson ag arfer effeithiol. 2.1j Cyflwynir ymyriadau i leihau/cynnwys PN, i ymdrin â'r tebygolrwydd o

	droseddu ac ymwybyddiaeth y dioddefwr, i hyrwyddo diogelu ac ailintegreiddio cymunedol, ac maent yn gyson ag arfer effeithiol. 2.1k Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn ymdrin ag anghenion penodol yr unigolyn, yn arbennig merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol, y rheiny ag anableddau, y rheiny â chyfrifoldebau gofal, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny â chynllun diogelu plant. 2.1l Mewn achosion perthnasol, cyflwynir a gweithredir cynllun rheoli risg effeithiol mewn partneriaeth ag eraill, ac mae tystyiolaeth o gyfranogiad rheolwr. 2.1m Ceir cydweithio cadarnhaol, rhagweithiol ac amserol rhwng y TTI a gwasanaethau plant lleol ac eraill perthnasol, i hwyluso rhannu gwybodaeth a chyflwyno'r cynllun ymyrryd, yn arbennig yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny y mae ganddynt hawl i wasanaethau gadael gofal. 2.1n Mae gan ymyriadau gynllun cyfyngedig i amser a strategaeth ymadael eglur. 2.1o Mae gweithwyr yn dangos ymrwymiad i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc drwy eu symbylu a'u cefnogi trwy gydol eu cyfranogiad a thrwy atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.
2.2 Caiff iechyd y plant a'r bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI a'i bartneriaid.	2.2a Mae staff yn adnabod anghenion iechyd (corfforol a meddyliol) ac anghenion o ran camddefnyddio sylweddau ac yn gwneud cyfeiriadau priodol. 2.2b Caiff plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion iechyd (corfforol a meddyliol) a/neu anghenion o ran camddefnyddio sylweddau eu cefnogi i gael mynediad at y gwasanaethau priodol. 2.2c Mae ymyriadau yn hyrwyddo iechyd meddyliol a chorfforol plant a phobl ifanc, ac yn helpu i'w darbwyllo i beidio â chamddefnyddio sylweddau.
2.3 Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu eu diogelu trwy waith y TTI a'i bartneriaid i gyfrannu at hyrwyddo eu lles a, lle bo'n briodol, eu	2.3a Mae'r TTI yn ymwneud yn weithredol â gwasanaethau plant lleol yn ystod y cyfnod asesu i sefydlu statws gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Caiff statws Plant sy'n Derbyn Gofal, plant mewn angen, diogelu plant, gadael gofal a statws anawsterau dysgu a/neu statws anabledd eu cofnodi'n gywir.

diogelwch.	2.3b Caiff diogelu ei asesu'n llawn ac yn gywir ym mhob achos. 2.3c Mae staff yn cyfeirio achosion lle nodwyd pryderon ynglŷn â diogelu at y gwasanaethau plant lleol ac yn cyfrannu at y Fframwaith Asesu Cyffredin (lle mae wedi'i ddatblygu a'i weithredu), cynlluniau diogelu plant a chynlluniau plant mewn angen o achos i achos. 2.3d Mae ymyriadau yn helpu plant a phobl ifanc i aros yn ddiogel, ac mae tystiolaeth o gydweithio, gan gynnwys trwy rannu gwybodaeth, cynlluniau ac adolygiadau, yn enwedig yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, plant mewn angen a diogelu plant a'r rheiny a chanddynt hawl i wasanaethau gadael gofal sydd mewn perygl o droseddu.
2.4 Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.	2.4a Mae staff yn nodi'n gywir anghenion AHCh ac yn gwneud cyfeiriadau priodol. 2.4b Caiff plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion AHCh eu cefnogi i gael mynediad at y gwasanaethau priodol. 2.4c Mae ymyriadau yn hyrwyddio cyfleoedd a chyraeddiadau dysgu priodol a chânt eu targedu mewn meysydd lle ceir angen addysgol asesedig. 2.4d Cymerir camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heithrio o'r ysgol yn barhaol yn mynychu lleoliadau gwahanol sydd â'r nod o sicrhau y cânt eu hailintegreiddio i addysg y briff ffrwd.

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SYDD WEDI TROSEDDU

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
2.5 Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran) yn cynnal gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.	2.5a Cynhelir asesiad Asset llawn ar gychwyn pob ymyriad a'i adolygu yn ôl y gofyn. [SG 4] 2.5b Mae asesiadau yn tynnu ar ystod o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau ac asesiadau blaenorol a phresennol (gan gynnwys asesiadau a gwaith a wnaed yn ystod prosesau mechnïaeth a remand), a'r hunanasesiad lle bo modd. [SG 4.4] 2.5c Caiff materion amrywiaeth, ffactorau gwahanaethol/anfanteisiol posibl ac unrhyw anghenion unigol eraill eu hasesu'n weithredol. Os cânt eu nodi,

	rhoddir cynlluniau ar waith i leihau eu heffaith. 2.5d Rhoddir sylw i'r dulliau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol gyda phob plentyn neu berson ifanc. 2.5e Caiff PN i eraill ei asesu'n gywir ym mhob achos a nodir sy'n achosi risg posibl trwy'r Asset perygl o niwed difrifol, ac fe'i cyfathrebir i staff sy'n ymwneud â'r achos a, lle bo'n berthnasol, i unigolion eraill. 2.5f Cynhelir ymweliad cartref amserol a phwrpasol, a'i ailadrodd yn ôl y gofyn. [SG 8.5 ac 8.47] 2.5g Mae cynllun ymyryd cychwynnol amserol ac adolygiadau dilynol yn tynnu ar Asset, cynlluniau/asesiadau asiantaethau eraill a chynlluniau/asesiadau blaenorol y TTI. Dylai cynlluniau gynnwys prosesau adfer dioddefwyr a chael amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 2.5h Trefnir ymyriadau'n briodol yn unol â'r PN, y tebygolrwydd o aildroseddu ac unrhyw faterion diogelu. 2.5i Nodir ymyriadau i leihau/cynnwys PN, i ymdrin â'r tebygolrwydd o aildroseddu ac ymwybyddiaeth y dioddefwr, i hyrwyddo diogelu ac ailintegreiddio cymunedol, ac maent yn gyson ag arfer effeithiol. 2.5j Cyflwynir ymyriadau i leihau/cynnwys PN, i ymdrin â'r tebygolrwydd o aildroseddu ac ymwybyddiaeth y dioddefwr, i hyrwyddo diogelu ac ailintegreiddio cymunedol, ac maent yn gyson ag arfer effeithiol. 2.5k Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn ymdrin ag anghenion penodol yr unigolyn, yn arbennig merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol, y rheiny ag anableddau, y rheiny â chyfrifoldebau gofal, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny â chynllun diogelu plant. 2.5l Mewn achosion perthnasol, cyflwynir a gweithredir cynllun rheoli risg effeithiol mewn partneriaeth ag eraill, ac mae tystiolaeth o gyfranogiad rheolwr. 2.5m Ceir cydweithio cadarnhaol, rhagweithiol ac amserol rhwng y TTI a gwasanaethau plant lleol ac eraill perthnasol, i hwyluso rhannu gwybodaeth a chyflwyno'r cynllun ymyrryd, yn arbennig yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny y mae ganddynt hawl i wasanaethau gadael gofal.

	2.5n Mae cyswllt â phlant a phobl ifanc yn gyson â safonau cenedlaethol cyfiawnder ieuenctid. [SG 8.6 ac 8.46] 2.5o Cymerir camau effeithiol i sicrhau bod camau cydymffurfio a, lle bo'n ofynnol, camau gorfodi yn dilyn diffyg cydymffurfio ag amserlen y safon genedlaethol. 2.5p Caiff trosglwyddo achosion (naill ai rhwng TTIau neu i'r gwasanaeth prawf) ei drin mewn ffordd gynlluniedig, amserol ac effeithiol, gyda chyfathrebiadau priodol i bawb sy'n gysylltiedig. 2.5q Mae gweithiwr y TTI yn asesu ac yn monitro anghenion llety'r plentyn neu'r person ifanc, ac yn mynd ati i weithio gydag eraill i sicrhau darpariaeth briodol. 2.5r Mae gweithwyr yn dangos ymrwymiad i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc drwy eu symbylu a'u cefnogi trwy gydol eu gorchymyn, a thrwy atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.
2.6 Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI.	2.6a Mae staff yn adnabod anghenion iechyd (corfforol a meddyliol) ac anghenion o ran camddefnyddio sylweddau yn gywir ac yn ymgymryd â gwaith priodol ag asiantaethau eraill. 2.6b Cynhelir asesiadau arbenigol yn achos y rheiny a chanddynt anghenion iechyd. 2.6c Caiff plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion iechyd (corfforol a meddyliol) a/neu anghenion o ran camddefnyddio sylweddau eu cefnogi i gael mynediad at y gwasanaethau priodol. 2.6d Mae ymyriadau yn hyrwyddo iechyd meddyliol a chorfforol plant a phobl ifanc, ac yn helpu i'w darbwyllo i beidio â chamddefnyddio sylweddau.
2.7 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu trwy waith y TTI i gyfrannu at eu lles a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.	2.7a Mae'r TTI yn ymwneud yn weithredol â gwasanaethau plant lleol yn ystod y cyfnod asesu i sefydlu statws gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Caiff statws Plant sy'n Derbyn Gofal, plant mewn angen, diogelu plant, gadael gofal a statws anawsterau dysgu a/neu statws anabledd eu cofnodi'n gywir. 2.7b Caiff diogelu ei asesu'n llawn ac yn gywir ym mhob achos. 2.7c Mae staff yn cyfeirio achosion lle nodwyd pryderon ynglŷn â diogelu at y

	gwasanaethau plant lleol ac yn cyfrannu at y Fframwaith Asesu Cyffredin (lle mae wedi'i ddatblygu a'i weithredu), cynlluniau diogelu plant a chynlluniau plant mewn angen ar sail o achos i achos. 2.7d Mae ymyriadau yn helpu plant a phobl ifanc i aros yn ddiogel, ac mae tystiolaeth o gydweithio, gan gynnwys trwy rannu gwybodaeth, cynlluniau ac adolygiadau, yn enwedig yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, pant mewn angen a diogelu plant a'r rheiny a chanddynt hawl i wasanaethau gadael gofal sydd mewn perygl o droseddu.
2.8 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.	2.8a Mae staff yn nodi'n gywir anghenion AHCh ac yn ymgymryd â gwaith priodol ag asiantaethau eraill. 2.8b Cynhelir asesiadau arbenigol o ran y rheiny a chanddynt anghenion addysgiadol. 2.8c Caiff plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion AHCh eu cefnogi i gael mynediad at y gwasanaethau priodol. 2.8d Mae ymyriadau yn hyrwyddio cyfleoedd a chyraeddiadau dysgu priodol a chânt eu targedu mewn meysydd lle ceir angen addysgol asesedig. 2.8e Cymerir camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heithrio o'r ysgol yn barhaol yn mynychu lleoliadau gwahanol sydd â'r nod o sicrhau y cânt eu hailintegreiddio i addysg y briff ffrwd.

GWAITH GYDA RHIENI/GOFALWYR

Maen Prawf Cyffredinol	**Meini Prawf Penodol**
2.9 Caiff rhieni/gofalwyr eu cefnogi i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol eu plant.	2.9a Caiff rhieni/gofalwyr eu gwneud yn ymwybodol o ofynion ymyriadau a wneir gan blant a phobl ifanc a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd yn ystod cyfnod yr oruchwyliaeth. 2.9b Caiff cyfranogiad gweithredol rhieni/gofalwyr yng ngoruchwyliaeth eu plant neu bobl ifanc ei hwyluso gan waith y TTI neu asiantaeth bartner. 2.9c Asesir sgiliau magu plant mewn ffordd amserol, yn unol â chanllawiau arfer effeithiol BCI, ac fe'u defnyddir i lywio ymyriadau. 2.9d Mae rhieni/gofalwyr yn cael eu cyfeirio at ymyriadau sy'n sensitif i'w hanghenion ac maent ar gael yn wirfoddol ac yn statudol.

	2.9e Mae ymyriadau yn hyrwyddo magu plant effeithiol o ran gallu'r rhiant/gofalwr i reoli, diogelu, hyrwyddo a gofalu am les y plentyn neu'r person ifanc.

CANLYNIADAU GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
2.10 Mae'r TTI yn hyrwyddo ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt, a defnyddir y wybodaeth hon i wella canlyniadau.	2.10a Mae'r TTI yn hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth mewn ymgynghoriadau ynglŷn â'r gwasanaethau a dderbynnir ganddynt. 2.10b Cymerir camau rhagweithiol i sicrhau bod cyfathrebiadau i geisio barn defnyddwyr gwasanaeth yn sensitif i'w hanghenion amrywiol. 2.10c Mae ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. 2.10d Yn dilyn ymgynghori, mae staff yn cynnig adborth ar weithredoedd neu faterion a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth unigol, gan gynnwys rhesymau am beidio â gweithredu ynghylch materion penodol. 2.10e Mae gweithdrefn gwyno ysgrifenedig, sydd wedi'i hysbysebu'n dda ac sy'n hawdd cael mynediad ati.
2.11 Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned.	2.11a Mae archwilio ymyriadau â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu yn cynnig tystiolaeth o gynnydd a ddangosir, er enghraifft, trwy: – welliannau yn eu hymddygiad, ymagweddau a chysylltiadau teuluol – gwelliannau o ran iechyd corfforol, emosiynol a/neu feddyliol – gwelliannau o ran cyflawniad a/neu gyrhaeddiad – lleihad mewn breguster. 2.11b Mae archwilio ymyriadau â phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn cynnig tystiolaeth o gynnydd a ddangosir, er enghraifft, trwy: – welliannau yn eu hymddygiad, ymagweddau a chysylltiadau teuluol – gwelliannau o ran iechyd corfforol, emosiynol a/neu feddyliol – gwelliannau o ran cyflawniad a/neu gyrhaeddiad – gwelliannau o ran canlyniadau llety – lleihad mewn breguster.

	2.11c Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl eraill berthnasol y gofynnwyd iddynt, yn datgelu: – gwelliannau yn eu hymddygiad, ymagweddau a chysylltiadau teuluol – gwelliannau o ran iechyd corfforol, emosiynol a/neu feddyliol – gwelliannau o ran cyflawniad a/neu gyrhaeddiad – gwelliannau o ran canlyniadau llety – lleihad mewn breguster. 2.11d Caiff data am waith â phlant a phobl ifanc ei gronni a'i werthuso, a defnyddir y canfyddiadau i lywio a gwella ymarfer ar gyfer y dyfodol. 2.11e Mae lleihad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, yn unol â dangosydd perfforiad allweddol BCI neu'n well na hynny. [5% erbyn 2007/2008 o 2005/2006] 2.11f Mae'r TTI yn dangos lleihad mewn aildroseddu ym mandiau cyn-llys, haen gyntaf a chymunedol y cosbau.

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN DEDFRYDAU GWARCHODOL

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
3.1 Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran), yn cynnal gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod y ddedfryd yn y ddalfa, i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.	3.1a Cynhelir asesiad Asset llawn ar gychwyn pob ymyriad a'i adolygu yn ôl y gofyn. [SG 4] 3.1b Mae asesiadau yn tynnu ar ystod o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau ac asesiadau blaenorol a phresennol, a'r hunanasesiad lle bo modd. [SG 4.4] 3.1c Caiff materion amrywiaeth, ffactorau gwahanaethol/anfanteisiol posibl ac unrhyw anghenion unigol eraill eu hasesu'n weithredol. Os cânt eu nodi, rhoddir cynlluniau ar waith i leihau eu heffaith. 3.1d Rhoddir sylw i'r dulliau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol gyda phob plentyn neu berson ifanc. 3.1e Caiff PN i eraill ei asesu'n gywir ym mhob achos a nodir sy'n achosi risg posibl trwy'r Asset perygl o niwed difrifol, ac fe'i cyfathrebir i staff sy'n ymwneud â'r achos a, lle bo'n berthnasol, i unigolion eraill. 3.1f Mae gweithiwr y TTI yn asesu ac yn monitro anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran llety, ac yn mynd ati i weithio gydag eraill i sicrhau darpariaeth briodol. 3.1g Trosglwyddir gwybodaeth briodol i'r sefydliad diogel gyda'r plentyn neu'r person ifanc, neu caiff ei derbyn cyn pen 24 awr o'r ymddangosiad llys. 3.1h Lle nodir perygl o hunan-niwed neun hunanladdiad, mae'r TTI yn rhagweithiol wrth gyfathrebu â'r sefydliad diogel a rhieni/gofalwyr lle bo'n briodol. 3.1i Mae'r cynllun hyfforddi cychwynnol yn tynnu ar Asset, asesiadau/cynlluniau asiantaethau eraill ac asesiadau/cynlluniau blaenorol y TTI, ac mae'n cynnwys ymyriadau a fydd: – yn lleihau/cynnwys PN, i ymdrin â'r tebygolrwydd o aildroseddu ac ymwybyddiaeth y dioddefwr, i hyrwyddo diogelu ac ailintegreiddio cymunedol, ac yn gyson ag arfer effeithiol – yn gynhwysol ac yn bodloni anghenion amrywiol

	– wedi'i drefnu'n briodol. 3.1j Mewn achosion perthnasol, sefydlir a gweithredir cynllun rheoli risg effeithiol mewn partneriaeth ac eraill ac mae tystiolaeth o gyfranogiad rheolwyr. Mae'r TTI yn mynychu holl gyfarfodydd MAPPA, gan gynnwys rhai a gynhelir yn y ddalfa sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer rhyddhau. 3.1k Caiff trosglwyddo achosion (naill ai rhwng TTIau neu i'r gwasanaeth prawf) ei drin mewn ffordd gynlluniedig, amserol ac effeithiol, gyda chyfathrebiadau priodol i bawb sy'n gysylltiedig. 3.1 Ceir cydweithio cadarnhaol, rhagweithiol ac amserol rhwng staff y sefydliad diogel, staff y TTI ac eraill i hwyluso cyflwyno'r ymyriad a chynllunio a pharatoi ar gyfer rhyddhau'r plentyn neu'r person ifanc. 3.1m Mae'r cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn gyson â safonau cenedlaethol cyfiawnder ieuenctid. [SG 11.5 ac 11.12] 3.1n Caiff rhieni/gofalwyr eu hannog a'u cynorthwyo i ymweld yn rheolaidd ac i fynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu ymyriad, yn arbennig y cyfarfod adolygu terfynol.
3.2 Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu trwy waith y TTI yn ystod cyfnod y ddedfryd yn y ddalfa i gyfrannu at hyrwyddo'u lles a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.	3.2a Mae'r TTI yn ymwneud yn weithredol â gwasanaethau plant lleol yn ystod y cyfnod asesu i sefydlu statws gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Caiff statws Plant sy'n Derbyn Gofal, plant mewn angen, diogelu plant, gadael gofal a statws anawsterau dysgu a/neu statws anabledd eu cofnodi'n eglur. 3.2b Caiff diogelu ei asesu'n llawn ac yn gywir ym mhob achos. 3.2c Mae staff yn cyfeirio achosion lle nodwyd pryderon ynglŷn â diogelu at y gwasanaethau plant lleol ac yn cyfrannu at y Fframwaith Asesu Cyffredin (lle mae wedi'i ddatblygu a'i weithredu), cynlluniau diogelu plant a chynlluniau plant mewn angen ar sail o achos i achos. 3.2d Mae ymyriadau yn helpu plant a phobl ifanc i aros yn ddiogel, ac mae tystiolaeth o gydweithio, gan gynnwys trwy rannu gwybodaeth, cynlluniau ac adolygiadau, yn enwedig yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, pant mewn angen a diogelu plant a'r rheiny a chanddynt hawl i wasanaethau gadael gofal sydd wedi troseddu.

3.3	**Mae'r TTI (neu eraill ar ei ran), yn cynnal gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod cymunedol y ddedfryd, i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.**	3.3a Cynigir apwyntiadau cyntaf amserol a rhaglen sefydlu brydlon a chynhwysfawr i bob plentyn a pherson ifanc wrth eu rhyddhau o sefydliad diogel. 3.3b Adolygir y cynllun ymyrryd cyn pen deng niwrnod gwaith o'u rhyddhau ac, wedi hynny, bob tri mis, neu ar ddiwedd y gorchymyn, p'un bynnag sydd gynharaf. 3.3c Caiff ymyriadau a gychwynnir yn y ddalfa i ymdrin â PN, ymddygiad troseddol, iechyd, diogelu ac anghenion AHCh eu parhau ar ôl eu rhyddhau, lle bo'n briodol. Rhoddir gwybod i'r Bwrdd Rheoli lle na chaiff gwasanaethau iechyd neu addysg eu darparu. 3.3d Mae cynllun dysgu unigol y plentyn neu berson ifanc yn parhau ar ôl ei ryddhau a chaiff ei adolygu, ei ddiweddaru a'i rannu'n rheolaidd â darparwyr a sefydliadau perthnasol, yn arbennig Gyrfa Cymru/Connexions. 3.3e Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn ymdrin ag anghenion penodol yr unigolyn, yn arbennig merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol, y rheiny ag anableddau, y rheiny â chyfrifoldebau gofal, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny â chynllun diogelu plant. 3.3f Mae cyswllt â phlant a phobl ifanc yn gyson â safonau cenedlaethol cyfiawnder ieuenctid. [SG 11.20] 3.3g Cynhelir ymweliad cartref amserol a phwrpasol a'i ailadrodd yn ôl y gofyn. [SG 11.19] 3.3h Cymerir camau effeithiol i sicrhau bod camau cydymffurfio a, lle bo'n ofynnol, camau gorfodi yn dilyn diffyg cydymffurfio ag amserlen y safon genedlaethol. [SG 8.7, 8.8 ac 11.26] 3.3i Mae'r TTI yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr i gefnogi ailintegreiddio llwyddiannus. 3.3j Mae gweithwyr yn dangos ymrwymiad i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc drwy eu symbylu a'u cefnogi trwy gydol eu gorchymyn, a thrwy atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.
3.4	**Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn**	3.4a Mae archwilio ymyriadau â phlant a phobl ifanc yn cynnig tystiolaeth o gynnydd a ddangosir, er enghraifft, trwy:

ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun dedfrydau gwarchodol.	– welliannau yn eu hymddygiad, ymagweddau a chysylltiadau teuluol – gwelliannau o ran iechyd corfforol, emosiynol a/neu feddyliol – gwelliannau o ran cyflawniad a/neu gyrhaeddiad – lleihad mewn breguster. 3.4b Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl eraill berthnasol y gofynnwyd iddynt, yn datgelu: – gwelliannau yn eu hymddygiad, ymagweddau a chysylltiadau teuluol – gwelliannau o ran iechyd corfforol, emosiynol a/neu feddyliol – gwelliannau o ran cyflawniad a/neu gyrhaeddiad – gwelliannau o ran canlyniadau llety – lleihad mewn breguster. 3.4c Mae'r TTI yn dangos lleihad mewn aildroseddu ym mand gwarchodol y cosbau.

4. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
4.1 Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo iddynt gael eu cynorthwyo gan ymyriad y TTI i deimlo'n fwy diogel a chau pen mwdwl ar y mater.	4.1a Rhoddir blaenoriaeth uchel gan y TTI i faterion sy'n ymwneud â diogelwch dioddefwyr, yn arbennig dioddefwyr/dioddefwyr posibl y gellir eu hystyried yn arbennig o fregus. 4.1b Mae'r TTI yn gwneud dyfarniadau cadarn o ran a ddylid gwahodd dioddefwyr i gymryd rhan mewn ymyriad cyfiawnder adferol, ac yn cofnodi'r penderfyniad hwn. 4.1c Mae'r TTI yn rhagweithiol wrth geisio cynnwys y dioddefwyr hynny y mae'n eu gwahodd i gymryd rhan mewn ymyriad cyfiawnder adferol. 4.1d Asesir anghenion dioddefwyr yn gyson mewn ffordd amserol, yn unol â'r canllawiau arfer effeithiol. 4.1e Rhoddir cyfle i bob dioddefwr sydd wedi cytuno i gymryd rhan wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'u cyfranogiad mewn prosesau adferol uniongyrchol/anuniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, a chânt eu cefnogi a'u galluogi i wneud hynny. 4.1f Cyfathrebir mewn ffordd sensitif, sy'n ymatebol i anghenion, amgylchiadau, blaenoriaethau ac amrywiaeth unigol. 4.1g Rhoddir y cyfle i ddioddefwyr ddylanwadu ar unrhyw elfen adferol o gynllun goruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc, ac i gael gwybod am eu cynnydd. 4.1h Mae gan ddioddefwyr fynediad at ymyriad adferol sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. 4.1i Darperir ymyriadau adferol ac atgyweiriol sy'n briodol i oedran, breguster, diwylliant, ethnigrwydd, anghenion iaith, lefelau llythrennedd a rhyw'r dioddefwyr a'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi troseddu. 4.1j Rhoddir y cyfle i o leiaf 75% o ddioddefwyr roi adborth, a defnyddir hwn i lywio a gwella gwaith y TTI. 4.1k Mae plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau adferol ac

	atgyweiriol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y dioddefwr a'r gymuned.

5. RHEOLI AC ARWAIN

ARWAIN A CHYNLLUNIO

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
5.1 Mae'r Bwrdd Rheoli wrthi'n gweithio gydag eraill, gan gynnwys rheolwr y TTI, mewn ffordd integredig i uchafu'r tebygolrwydd o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.	5.1a Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau y caiff y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ei integreiddio gyda'r Cynllun Diogelwch Cymunedol, Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan a chynlluniau eraill o ran plant a phobl ifanc, a'i fod yn cael ei weithredu a'i adolygu'n rheolaidd. 5.1b Gwneir cyfraniad strategol priodol i amddiffyn, iechyd a diogelwch a gwarchod y cyhoedd. 5.1c Mae materion amrywiaeth yn rhan annatod o'r broses gynllunio a gweithredu strategol ac fe'u monitrir yn rheolaidd yn erbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt. 5.1d Caiff perfformiad cywir ac amserol yn erbyn targedau (BCI ac eraill) a gwybodaeth ehangach am y gwasanaeth eu monitro fel mater o drefn, ac mae gweithdrefnau sicrwydd ansawdd cadarn ar waith. Defnyddir canlyniadau i: – gyfrannu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc o ran materion amrywiaeth ac, yng Nghymru, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 – llywio prosesau cynllunio a chomisiynu lleol – dal rheolwyr yn gyfrifol. 5.1e Lle nad yw targedau'n cael eu bodloni, mae cynlluniau eglur ar gyfer gwella perfformiad ar waith a chaiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd.

PARTNERIAETH AC ADNODDAU

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
5.2 Mae sefydliadau partner a'r TTI yn cydweithio'n effeithiol i amddiffyn y cyhoedd, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a	5.2a Mae TTIau wedi'u staffio'n briodol a gwneir cyfraniadau gan bartneriaid yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad *Sustaining the Success* y BCI i gyflwyno'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol. 5.2b Mae'r TTI yn uchafu buddiannau adnoddau a ddyrennir a ffynonellau sydd ar gael ar lefel leol, yng Nghymru neu yn rhanbarthau Lloegr, ac mae'n ceisio adnoddau ychwanegol ledled Cymru a Lloegr ar gyfer gweithio gyda

throseddol a chyflwyno canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.	phlant a phobl ifanc. 5.2c Nodwyd adnoddau sydd â'r gallu i fodloni angen asesedig, ac fe'u defnyddir yn briodol, gan gynnwys i gefnogi mentrau amrywiaeth. 5.2d Mae adnoddau yn dilyn perygl, gyda PN yn flaenoriaeth amlwg gyda PPOau ac adnoddau cymesur yn cael eu rhoi i ddiogelu. 5.2e Mae'r TTI yn cyfrannu'n effeithiol at ymagwedd gyd-asiantaeth at reoli PN yn y gymuned, gan gynnwys cyfranogi mewn MAPPA a chofrestru â'r heddlu. 5.2f Mae'r TTI yn aelod gweithredol o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, ac yn gweithio'n adeiladol gydag eraill ac yn unol â gweithdrefnau lleol ar gyfer amddiffyn plant (fel a lywiwyd gan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan) a'r Fframwaith Asesu Cyffredin (lle mae wedi'i ddatblygu a'i weithredu), i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. 5.2g Mae trefniadau cysylltu effeithiol gyda'r heddlu a phartneriaid eraill yn cyfrannu at uchafu'r defnydd o geryddon a rhybuddion terfynol i ddargyfeirio plant a phobl ifanc rhag cael eu herlyn. 5.2h Mae trefniadau cysylltu effeithiol gyda dedfrydwyr yn cyfrannu at ganlyniadau dedfrydu i blant a phobl ifanc sy'n gyson â pholisi a chanllawiau BCI. 5.2i Cytunwyd ar brotocolau, contractau a CLGau rhwng y TTI, ei bartneriaid statudol a sefydliadau perthnasol eraill i ymdrin yn effeithiol â chydlynu gwaith, cyflwyno gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, adnoddau dynol a threfniadau cyllido. Cânt eu hadolygu, eu gwerthuso a'u diweddaru yn rheolaidd. 5.2j Mae'r TTI yn gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol, darparwyr cartrefi lleol, trefniadau Cefnogi Pobl a phartneriaid lleol eraill i gyflawni canlyniadau llety llwyddiannus i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, neu sydd mewn perygl o droseddu, ac i helpu i atal digartrefedd. 5.2k Cytunwyd ar broses effeithiol gan y TTI a'i bartneriaid i nodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.

	5.2l Mae'r TTI yn cyfrannu at gynllunio a chyflwyno gwasanaethau yn yr awdurdod lleol i ddargyfeirio plant a phobl ifanc yn llwyddiannus rhag troseddu, yn arbennig trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. 5.2m Mae'r TTI yn cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn arbennig trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

GORUCHWYLIO, DATBLYGU A HYFFORDDI STAFF

Maen Prawf Cyffredinol	Meini Prawf Penodol
5.3 Caiff canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.	5.3a Mae rheolwyr yn dangos ymagweddau rheoli cadarnhaol ac maent yn batrymau ymddygiad arweiniol cadarnhaol. 5.3b Mae gan bob gweithiwr ddealltwriaeth eglur o'u rôl, eu tasgau a'r terfynau o ran plant a phobl ifanc, ac maent yn gymwys (a, lle bo'n briodol, yn gymwysedig) i wneud eu gwaith. 5.3c Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn eglur ac yn gynhwysfawr ac maent yn cefnogi'r amcanion a osodwyd gan Lywodraeth y DU a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae amcanion lleol yn seiliedig ar egwyddorion arfer effeithiol. Cyfathrebir y rhain i staff ar bob lefel o'r sefydliad, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i wirio gweithredu ac effaith. 5.3d Caiff anghenion hyfforddi a datblygu pob aelod o staff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cynllun hyfforddi staff a gostiwyd yn cysylltu anghenion datblygu unigol a pherfformiad â chyflawni'r cynlluniau busnes perthnasol (e.e. Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid) a chaiff ei gyflwyno. 5.3e Caiff staff eu goruchwylio'n briodol o reolaidd ac yn unol â safon foddhaol o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u hanghenion datblygu a lefel asesedig eu cymhwysedd. 5.3f Mae pob aelod o staff yn dod o dan arfarniad blynyddol o ansawdd digonol, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a chynlluniau perthnasol eraill.

	5.3g Caiff gweithwyr a gwirfoddolwyr partneriaeth eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol, ac maent yn briodol o gymwys ac ar gael ar gyfer gweithgareddau'r TTI. 5.3h Caiff barn defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eu casglu a'u coladu'n rheolaidd a'u defnyddio i wella cyflwyno'r gwasanaeth. 5.3i Cynhelir gwiriadau SCT ar bob aelod o staff, gan gynnwys partneriaid a gwirfoddolwyr, sydd â mynediad at blant a phobl ifanc neu at eu ffeiliau achos, ac fe'u diweddarir bob tair blynedd o leiaf. 5.3j Mae trefniadau eglur ar waith i reoli gweithdrefnau disgyblaeth, gallu a chwyno. 5.3k Rheolir cwynion yn briodol yn erbyn y weithdrefn a, lle bo'n briodol, defnyddir y canlyniadau i wella arfer.